# DEDDF TRETH GWAREDIADAU TIRLENWI (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 4 - Gwarediadau Trethadwy A Wneir Mewn Lleoedd Heblaw Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig

***Pennod 1* – *Y Dreth sydd i'w Chodi ar Warediadau Trethadwy***

***Adran 46* – *Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi ar waredaid trethadwy***

86. Mae'r adran hon yn darparu y bydd swm y dreth sydd i'w godi ar warediad a wneir yn rhywle heblaw safle tirlenwi awdurdodedig (gweler adran 3 am y diffiniad o warediad trethadwy) yn cael ei gyfrifo drwy luosi pwysau trethadwy'r deunydd gyda'r gyfradd ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi. Bydd ACC yn pennu'r pwysau trethadwy gan ddefnyddio unrhyw ddull y mae'n ei ystyried yn briodol. Caiff y gyfradd ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ei rhagnodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Dim ond yn dilyn dyroddi hysbysiad codi treth o dan Bennod 2 o'r Rhan hon y bydd yn ofynnol i berson dalu'r dreth.